

**Roeddwn i'n fwy  
na dim ond tyst  
arall, roeddwn  
i'n unigolyn.**



**Effaith y  
Gwasanaeth  
Tystion yn ystod  
y coronafeirws  
2020/21**

“Roedd y cymorth a’r sicrwydd a gefais yn rhagorol. Cafodd fy holl anghenion eu diwallu ac fe wnaethon nhw wneud i mi deimlo’n hollol ddiogel. Fe wnaethon nhw leddfu fy mhryderon, ac roedd y gwasanaeth a gefais drwy gydol y cyfnod yn wych. Does yna ddim byd y gallen nhw fod wedi’i wneud yn well.”

—Tyst

## Rhagair gan Clare Moriarty, Prif Weithredwr Cyngor ar Bopeth

Mae Gwasanaeth Tystion Cyngor ar Bopeth yn cynnig cymorth hanfodol i bwy bynnag sy'n rhoi tystiolaeth mewn achosion troseddol yng Nghymru a Lloegr. Mae ei waith yn helpu tystion i gyflwyno'u tystiolaeth orau ac yn helpu achosion i fynd yn eu blaen yn ôl y bwriad. Mae'r system cyfiawnder troseddol angen Gwasanaeth Tystion – ac yn fwy fyth felly yn ystod pandemig y coronafeirws.

Yn Cyngor ar Bopeth, rydym yma i bawb, waeth pwy ydyn nhw na beth fo'u problem. Mae'r Gwasanaeth Tystion wedi bod yn helpu pobl ers 25 mlynedd, ac ers Ebrill 2015 rydym yn falch o'i ystyried fel un o'n gwasanaethau. Mae'r balchder hwnnw wedi cynyddu wrth i ni weld sut mae'r staff a'r gwirfoddolwyr wedi wynebu'r heriau a ddaeth yn sgil y pandemig, gan barhau i eirioli er mwyn cefnogi anghenion tystion.

## Cyflwyniad gan Gina Perkins, Pennaeth Gwasanaethau a Ariennir

Mae byw trwy bandemig yn brofiad nad oedd neb yn ei ddisgwyl, ac mae pob un ohonom wedi gorfod cyflwyno newidiadau i'n bywydau personol a phroffesiynol er mwyn wynebu'r heriau sydd wedi dod i'n rhan yn sgil y coronafeirws. Nid yw'r Gwasanaeth Tystion – na'r system cyfiawnder troseddol yn ei chyfanrwydd, yn wir - yn eithriad yn hyn o beth.

Mae llysoedd wedi newid yn gyson er mwyn cadw defnyddwyr yn ddiogel a mynd i'r afael â'r holl achosion sydd wedi pentyrru gan fod gallu llysoedd i ddelio ag achosion wedi lleihau yn ystod y pandemig. Ac i'r Gwasanaeth Tystion,

ein blaenoriaeth oedd parhau i gefnogi tystion.

Rydym yn falch dros ben o'r hyn a gyflawnwyd gennym eleni. Mae ein staff a'n gwirfoddolwyr wedi gweithio'n ddiflino i helpu tystion i gyflwyno'u tystiolaeth orau yn yr amgylchiadau eithriadol hyn.

Dengys ein hadroddiad ar effaith y coronafeirws sut mae'r Gwasanaeth Tystion wedi ymateb ac addasu trwy'r cyfnod hwn o newid. Trwy ddeall ein heffaith, gallwn weithio tuag at sicrhau canlyniadau gwell fyth i dystion yn y dyfodol.

# Natur ein gwasanaeth

Gall rhoi tystiolaeth mewn llys fel tyst fod yn brofiad llawn straen a phryder. Caiff y Gwasanaeth Tystion ei ariannu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder er mwyn cynnig gwybodaeth a chyngor annibynnol, cyfrinachol, rhad ac am ddim, ynghyd â help ymarferol, i dystion sy'n mynychu achosion a gwrandawiadau yng Nghymru a Lloegr, i'w cynorthwyo i gyflwyno'u tystiolaeth orau.

## Natur ein gwasanaeth fel arfer

Rhodddwn y canlynol i dystion:

### Cymorth cyn yr achos

- tywys tystion o gwmpas y llys cyn diwrnod yr achos gan esbonio pwy fyddant yn eu gweld a beth fydd yn digwydd, ac ymdrin ag unrhyw bryderon

### Gwasanaeth allgymorth

- cymorth pellach i dystion agored i niwed neu dystion sy'n cael eu bygwth, yn cynnwys sesiynau paratoi, ymweliadau cyn yr achos a chymorth ar ôl yr achos

### Cymorth ar y diwrnod

- cyfarfod a chyfarch, ateb cwestiynau ynglŷn â phroses y llys, cynnig cymorth emosiynol a siarad o blaid eu hanghenion

### Cymorth ar gyfer gwrandawiadau llysoedd teulu

- mae ein Gwasanaeth Cam-drin Domestig ar gyfer Llysoedd Teulu yn cynnig cymorth, gwybodaeth a help mewn 12 llys teulu yn Lloegr i'r rhai sydd wedi dioddef cam-drin domestig, er mwyn iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu, ynghyd â theimlo'n wybodus ac yn hyderus wrth fynychu gwrandawiadau llysoedd teulu

## Sut mae ein gwasanaeth wedi newid yn ystod y coronafeirws

Yn ystod pandemig y coronafeirws, bu'n rhaid i ni addasu'r ffordd y cyflwynwn ein gwasanaethau er mwyn sicrhau diogelwch y tystion, ein staff a'n gwirfoddolwyr. Mae'r newidiadau a roddwyd ar waith yn cynnwys...

### Cymorth cyn yr achos

- cadw pellter cymdeithasol ym mhob llys
- cynnig cymorth ar y ffôn trwy ein rhif Cymorth o Bell Cenedlaethol
- cynnal ymweliadau 'o bell' cyn yr achos, naill ai ar y ffôn neu trwy alwad fideo

### Gwasanaeth allgymorth





- darparu cymorth pellach trwy gyfrwng fideogynadleddau, er mwyn i ni allu parhau i gynorthwyo'r dioddefwyr a'r tystion mwyaf agored i niwed

### Cymorth ar y diwrnod

- 'cysylltu' â gwrandawiadau o bell i gefnogi tystion sy'n cyflwyno tystiolaeth o'u cartref
- staff ychwanegol mewn llysoedd Nightingale

# Ein gwasanaeth ar ffurf niferoedd








## Darparu ein gwasanaeth

-  Rydym wedi cynorthwyo **mwyna 51,650 o dystion** i gyflwyno'u tystiolaeth orau yn y llys
-  Rydym wedi rhoi cymorth ychwanegol i **2,340 o dystion agored i niwed neu dystion sy'n cael eu bygwth** trwy ein rhaglen allgymorth
-  Yn achos tystion agored i niwed a thystion sy'n cael eu bygwth, rydym wedi cynyddu'r gyfran sy'n cael cymorth ychwanegol o 15% yn 2019/20 i 21% yn 2020/21 - **y ffigur uchaf yn ein hanes**
-  Fe wnaethom gynnal **6,380 o ymweliadau cyn achosion**, yn cynnwys ymweld â llysoedd, galwadau ffôn a galwadau fideo

Oherwydd y coronafeirws, roedd y niferoedd hyn yn is yn 2020/21 nag mewn blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, rydym yn gweld arwyddion cadarnhaol fod adferiad ar droed: mae'r ffigurau hyn wedi cynyddu bob chwarter ers dechrau'r pandemig, ac yn chwarter olaf y llynedd roeddynt naill ai wedi cyrraedd y lefel arferol neu wedi rhagori arni. Yn Ch1 2020, fe wnaethom gynorthwyo 2,500 o dystion - y ffigur ar gyfer Ch4 oedd 18,300, sy'n gymaradwy â'r 21,300 o dystion y gwnaethom eu cynorthwyo yn Ch4 2019.

Hefyd, yn ystod Ch3 a Ch4 fe wnaethom ni roi cymorth ychwanegol i fwy o dystion agored i niwed a thystion sy'n cael eu bygwth nag yn ystod yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.

## Yn ein Harolwg o Brofiad Tystion...<sup>1</sup>

-  Dywedodd 96% eu bod yn 'fodlon iawn' neu'n 'fodlon' â'n cymorth
-  Dywedodd 99% ein bod wedi'u trin yn deg a chyda pharch
-  Dywedodd 96% ein bod wedi'u helpu i deimlo'n ddiogel yn y llys
-  Dywedodd 96% ein bod wedi'u helpu i deimlo'n fwy gwybodus ynglŷn â phroses y llys
-  Dywedodd 90% ein bod wedi'u helpu i deimlo'n fwy hyderus ynglŷn â rhoi tystiolaeth
-  Dywedodd 98% ein bod wedi'u helpu i deimlo'n gyfforddus yn y llys, a theimlo eu bod yn cael cefnogaeth yno
-  Dywedodd 93% ein bod wedi diwallu pob un, neu'r rhan fwyaf, o'u hanghenion

<sup>1</sup> Mae'r holl ffigurau a ddyfynnir yn yr adroddiad hwn mewn perthynas ag adborth tystion yn deillio o ganfyddiadau ein Harolwg o Brofiad Tystion (a gynigir i bob tyst ar ôl mynychu achos) a'n harolwg chwarterol dilynol (a anfonir at dystion ar ôl i'r achos orffen ac ar ôl i'n cymorth ddod i ben).

# Edrych yn ôl ar y flwyddyn ddiwethaf

Mae pandemig y coronafeirws wedi creu heriau annisgwyl i'r Gwasanaeth Tystion, ond aethom ati'n ddi-oed i addasu model ein gwasanaeth er mwyn i ni allu parhau i gynnig cymorth o'r radd flaenaf i dystion.

## Parhau i ganolbwyntio ar gynorthwyo dystion

Fe wnaethom barhau i eirioli ar ran dystion, yn genedlaethol ac yn lleol. Er bod ein gwasanaeth yn hyblyg bob amser, mae cyflwyno cymorth sydd wedi'i deilwra ar gyfer yr unigolyn yn bwysicach nag erioed.

Rydym yn eithriadol o falch o'r gwaith a wnaethom eleni i sicrhau bod llais dystion yn cael ei glywed trwy'r system cyfiawnder troseddol.



Fe wnaethom ni dynnu sylw penderfynwyr allweddol yn y system gyfiawnder at broblemau dystion a chynorthwyo yn y broses o ganfod atebion



Fe wnaethom fynychu cyfarfodydd y system gyfiawnder genedlaethol ynglŷn â'r coronafeirws, gan ddefnyddio ein plattform i siarad o blaid newidiadau yn y broses i ategu diogelwch a hwylustod dystion



Buom yn cydweithio â phartneriaid yn y system gyfiawnder i sicrhau bod penderfynwyr allweddol yn ymwybodol o'r effeithiau a gâi mesurau gweithredu'r coronafeirws ar dystion



Buom yn eirioli ar ran dystion mewn cyfarfodydd lleol, gan sicrhau bod modd i lysoedd lleol ac asiantaethau cefnogi cyfiawnder ddarparu ar gyfer anghenion dystion



## Ymdopi â heriau logistaidd

Eleni, bu ein hadnoddau dan gryn bwysau oherwydd y mesurau a gyflwynodd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi i helpu'r gwaith o adfer ar ôl y coronafeirws mewn llysoedd troseddol. Roedd y mesurau hyn yn cynnwys:

- cyflwyno safleoedd newydd ar gyfer llysoedd Nightingale
- argaeledd parhaus safleoedd cyswllt o bell a oedd yn galluogi tystion i roi tystiolaeth trwy fideo
- treialu oriau agor hirach mewn llond llaw o lysoedd
- newidiadau i batrymau rhestru mewn llysoedd

**Ond wnaeth yr heriau ychwanegol hyn mo'n rhwystro rhag helpu tystion.** Er mwyn diwallu'r gofynion ychwanegol hyn ar ein gwasanaeth, aethom ati i recriwtio staff dros dro a chyflwyno 961 o wirfoddolwyr newydd i'r Gwasanaeth rhwng Ionawr a Mai 2021 i gymryd lle'r rhai a roddodd y gorau iddi oherwydd y pandemig, ac i gefnogi ein hymgyrch am amrywiaeth a chadernid.

## Cefnogi ein pobl

Rydym wedi rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a lles ein staff, ein gwirfoddolwyr a'n tystion, a chydabyddwn yr effaith mae'r pandemig wedi'i chael ar ein pobl.

Aethom ati i roi gwiriadau lles a phrosesau asesu risg trylwyr ar waith ar gyfer ein pobl sy'n gweithio mewn llysoedd, ynghyd â datblygu prosesau uwchgyfeirio clir ar gyfer cofnodi pryderon. Buom yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid i

sicrhau bod llysoedd wedi asesu'r risgiau'n llwyr a'u bod yn ddiogel o ran COVID.

Yn naturiol, roedd gan nifer o wirfoddolwyr bryderon ynglŷn â dychwelyd at y dasg o gynorthwyo tystion. Mewn ymateb i hyn, rydym wedi creu pecyn lles ar gyfer gwirfoddolwyr i gefnogi'r rhai sydd wrthi'n dychwelyd, neu sydd wedi dychwelyd, i'r llys.

## Cydweithio â phartneriaid

Rydym wedi gweithio gyda rhanddeiliaid i gyflwyno ymateb cydgyssylltiedig i'r pandemig. Fe wnaethom gyfrannu at weithgor coronafeirws, gan ddwyn ynghyd gynrychiolwyr cenedlaethol o'r Gwasanaeth Tystion, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, yr heddlu a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Gwnaed hyn yn dilyn grŵp Trefn Reoli Arian Dioddefwyr a Thystion Covid-19 y Weinyddiaeth Gyfiawnder, er mwyn i ni allu gwneud penderfyniadau strategol cyflym a chydweithio ar gamau ar y cyd, gan sicrhau ar yr un pryd fod anghenion tystion yn cael eu hystyried bob amser.

Mae'r gweithgor wedi bod yn eithriadol o ddefnyddiol drwy gydol y pandemig, ac mae ein gwaith wedi arwain at gynydd o ran hysbysu tystion sy'n mynychu llysoedd. Roedd ein llwyddiant yn cynnwys datblygu prosesau uwchgyfeirio newydd er mwyn i staff a gwirfoddolwyr allu cyflwyno ymholiadau a phryderon ynglŷn â diogelwch, a chreu adnoddau'n ymwneud yn benodol â'r coronafeirws ar gyfer tystion sy'n rhoi tystiolaeth yn ystod y pandemig.

# Bod yna i dystion yn ystod y pandemig



Dyweddodd 96% o dystion eu bod yn 'fodlon iawn' neu'n 'fodlon' â'r gwasanaeth a gawsant gennym

Mae pandemig y coronafeirws wedi effeithio ar bob un ohonom mewn ffyrdd na wnaethom erioed eu dychmygu. Wrth i 2020 fynd rhagddi, bu'n rhaid i rannau helaeth o'n bywydau newid, weithiau heb ein rheolaeth lawn. Nid yw mynychu'r llys yn ddim gwahanol – yn aml, mae'n brofiad newydd a brawychus i dystion, waeth be fo'u hamgylchiadau.

Wrth i'r byd o'n cwmpas newid yn barhaus, roeddem yma i gynnig cymorth a chysur cyson i dystion. Dyma sut yr aethom ati...


## Parhau i gynnal cymorth o ansawdd

Rydym wedi parhau i gynnig cymorth cadarn i dystion trwy'r flwyddyn gythryblus hon. Mae hyn yn golygu bod yr effaith a gaiff ein gwasanaethau ar dystion – a'r cyfraniad a wnânt hwy at sicrhau bod y system cyfiawnder troseddol yn mynd rhagddi'n ddidrafferth, trwy gyflwyno tystiolaeth – hefyd wedi aros yn gyson.

Mae cymorth arbenigol ein staff a'n gwirfoddolwyr yn gwneud i dystion deimlo'n ddiogel, yn llai pryderus ac yn fwy gwybodus ynglŷn â'r hyn y gallant ei ddisgwyl. Y llynedd, fe wnaethom gyflwyno llwybr dysgu digidol newydd i'n gwirfoddolwyr, yn cynnwys hyfforddiant ac achrediad newydd ar gyfer cyflwyno cymorth cyn achosion ar y ffôn, fel ymateb uniongyrchol i'r pandemig.

**Roedd canran y dystion a ddywedodd eu bod yn 'fodlon iawn' neu'n 'fodlon' â'r cymorth a gawsant gennym** bron yn union yr un fath â'r ffigur ar gyfer y flwyddyn flaenorol (96% yn 2020/21 o gymharu â 98% yn 2019/20), a dengys hyn ein bod wedi gallu parhau i gynnig cymorth rhagorol er gwaethaf yr amgylchiadau anodd.

## Bodlonrwydd dystion, 2017 i 2021





## Parhau i ddiwallu anghenion tystion o bob math



Roedd 99% o dystion o'r farn fod y Gwasanaeth Tystion wedi'u trin yn deg a chyda pharch

Rydym yn cynnig cymorth i bob tyst sy'n mynychu achosion troseddol, yn cynnwys dioddefwyr, tystion yr erlyniad, tystion yr amddiffyniad, aelodau teuluol sydd wedi cael profedigaeth, a'r rhai sy'n cefnogi tystion neu'n gofalu amdanynt. Mae ein gwirfoddolwyr a'n staff yn rhoi cymorth annibynnol, diduedd i bob cleient, ac roedd **99% o dystion o'r farn fod ein gwasanaeth wedi'u trin yn deg a chyda pharch**. Yn Cyngor ar Bopeth, rydym yma i bawb, waeth pwy ydyn nhw na beth fo'u problem, ac nid yw'r Gwasanaeth Tystion yn ddim gwahanol.

**“Roeddwn yn dyst i'r diffynnydd. Ni allai'r gwirfoddolwr fod wedi gwneud mwy. Roedd yn wybodus iawn, yn llawn gwybodaeth, yn garedig, yn dosturiol ac yn llawn cydymdeimlad.”**

—Tyst

Yn ystod y pandemig, o blith mwy na 51,650 o dystion yr aethom ati i'w cynorthwyo, roedd tua 80% yn ddioddefwyr troseddau. Mae hyn yn uwch o lawer na'r gyfran o ddioddefwyr a fyddai'n defnyddio ein gwasanaethau fel arfer – tua 65% yn 2019/20 – ond mae'n adlewyrchu ffocws y system cyfiawnder troseddol ar flaenoriaethu achosion

sensitif â blaenoriaeth uchel, neu achosion brys eraill, tra oedd capasiti'r llys yn llai.

Yn ystod y pandemig, buom yn gweithio'n hyblyg i ddiwallu holl anghenion cymorth a oedd gan dystion, er bod cyfyngiadau'r coronafeirws ar brydiau wedi effeithio ar y math o gymorth y gallem ei roi. Gyda chymorth Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlysoedd Ei Mawrhydi, aethom ati i greu amgylcheddau diogel, cefnogol a llawn parch ar gyfer tystion – amgylcheddau a oedd yn addas i'w hamgylchiadau.

Ymhellach, fe wnaeth y pandemig ein hannog i fod hyd yn oed yn fwy cynhwysol ac yn fwy parod i newid. Yn sgil yr arfer o gadw pellter cymdeithasol, cawsom ein hysgogi i ddatblygu ffyrdd newydd o gynorthwyo tystion, yn cynnwys cynnal ymweliadau cyn achosion ar y ffôn a thrwy fideo – roedd y math hwn o gymorth yn cyfateb i 45% o'r holl gymorth cyn achosion a ddarparwyd gennym yn 2020/21. Fel gwasanaeth cenedlaethol sy'n gweithio ar lefel leol, gallwn bob amser weithredu ar draws ffiniau daearyddol – bellach, rydym mewn sefyllfa well fyth i ddiwallu anghenion unigol tystion, waeth be fo'u hanghenion o ran lleoliad, adnoddau na mynediad.

Felly, nid yw'n syndod o gwbl fod **93% o dystion wedi dweud bod y Gwasanaeth Tystion wedi diwallu pob un, neu'r rhan fwyaf, o'u hanghenion unigol**. Golyga hyn fod ein staff a'n gwirfoddolwyr wedi gallu cynnig yr wybodaeth a'r cymorth priodol i dystion, waeth pa lys a fynychwyd ganddynt, er mwyn eu galluogi i gyflwyno'u tystiolaeth orau.

## Gwneud i dystion deimlo eu bod yn cael cefnogaeth a gofal



Dywedodd 98% o dystion fod y Gwasanaeth Tystion wedi eu helpu i deimlo'n gyfforddus yn y llys, a theimlo eu bod yn cael cefnogaeth yno

Mae ein staff a'n gwirfoddolwyr wedi parhau i helpu tystion i deimlo'n llai cynhyrfus ac yn fwy diogel, a theimlo eu bod yn cael cefnogaeth yn ystod y broses cyfiawnder troseddol, a hynny er gwaethaf y pryderon ychwanegol o ran mynychu'r llys yn ystod pandemig. **Dywedodd 98% o dystion fod y staff a'r gwirfoddolwyr wedi'u helpu i deimlo'n gyfforddus yn y llys a theimlo eu bod yn cael cefnogaeth yno.**

**“Roedd bod yn dyst yn y llys yn brofiad llethol a dychrynlyd. Ond llwyddodd y gwirfoddolwyr i wneud i ni deimlo mor gyfforddus ac fe fuon nhw'n gefn i ni drwy gydol y diwrnod. Roedden nhw'n wirioneddol anhygoel a fydden ni ddim wedi ymdopi heb eu help nhw.”**

—Tyst

Yn ystod blwyddyn pan fu'n rhaid i nifer o dystion fynychu'r llys heb neb i'w cefnogi, bu cymorth un o wirfoddolwyr cyfeillgar, llawn empathi y Gwasanaeth Tystion yn fwy gwerthfawr nag erioed.

**“Rydyn ni'n eithriadol o lwcus... o gael tîm mor wych o wirfoddolwyr yn y Gwasanaeth Tystion. Maen nhw'n cynnig gofal rhagorol i dystion sydd, yn aml, yn ofnus ac yn nerfus wrth iddyn nhw ddod i'r llys, efallai am y tro cyntaf yn eu bywydau, a hynny weithiau ar ôl profi'r digwyddiadau mwyaf erchyll. Mae ail-fyw'r digwyddiadau hynny yn brofiad eithriadol o ddirdynol, a byddem ar goll heb y gwirfoddolwyr i'w cefnogi... Mae'r ffaith fod y gwirfoddolwyr bob amser yn barod i helpu, hyd yn oed yn ystod y pandemig COVID, yn glod mawr iddyn nhw.”**

—Barnwr





## Gwneud i dystion deimlo'n ddiogel yn y llys



Dywedodd 96% o'r tystion a fynychodd y llys fod staff a gwirfoddolwyr y Gwasanaeth Tystion wedi'u helpu i deimlo'n ddiogel

Gwyddom fod llawer o dystion yn poeni a fyddant yn ddiogel yn y llys. Yn aml, mae hyn yn ymwneud ag ofni dod wyneb yn wyneb â phobl eraill sy'n gysylltiedig â'r achos, neu'r canlyniadau yn sgil rhoi tystiolaeth. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae pryderon tystion ynglŷn â diogelwch wedi cael eu dwysáu gan y coronafeirws a'r risgiau posibl i'w hiechyd.

Y llynedd, buom yn helpu Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi i roi mesurau ar waith i helpu tystion i deimlo'n fwy diogel yn y llys, yn cynnwys:

-  darparu manau aros preifat diogel
-  trefnu i ddefnyddio llwybrau amgen i mewn ac allan o lysoedd
-  cynorthwyo gyda cheisiadau am Fesurau Arbennig i amddiffyn tystion
-  sicrhau bod canllawiau iechyd a diogelwch yn ymwneud â'r coronafeirws yn cael eu dilyn

Mae ein gwaith wedi esgor ar ganlyniadau hynod gadarnhaol, gyda **96% o'r tystion a fynychodd y llys yn dweud ein bod wedi'u helpu i deimlo'n ddiogel.**

**“Ni fyddai fy wyres na minnau wedi gallu bod yn dystion heb help y gwasanaeth hwn. Mae gan fy wyres anawsterau dysgu ac felly roedd hi angen mwy o gymorth... fe wnaeth y ddau wirfoddolwr ei chefnogi a gwneud iddi deimlo'n ddiogel ac yn hyderus o ran cyflwyno'i fersiwn hi o'r digwyddiadau yn y llys.”**

—Tyst

Yn fwy nag erioed o'r blaen, yn ystod y pandemig bu'n ofynnol i ni gydweithio â'n partneriaid yn y system cyfiawnder troseddol er mwyn helpu tystion i deimlo'n ddiogel. Yn ogystal â chydlynu ymdrechion ar lefel genedlaethol, aethom ati ym mhob llys i weithio gyda Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi a defnyddwyr proffesiynol eraill y llys i sicrhau diogelwch y tystion.

## **Gweithio gyda Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi: profiad aelod o staff y Gwasanaeth Tystion**

“Yn ein llys lleol, buom yn gweithio’n agos gyda Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi i sicrhau bod ystafelloedd aros ar gyfer tystion a chyfleusterau ‘cyswllt byw’ yn ddiogel o ran COVID. Er enghraifft, gofynnodd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi am ein cyngor ynglŷn â sut gellid cynllunio ystafelloedd tystion mewn modd priodol ar gyfer cynorthwyo tystion, ar ôl iddynt sicrhau bod y seddi 2 fetr ar wahân. Ymhellach, ar ôl cyflwyno newidiadau yn ystafelloedd y llys, fe wnaeth Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi ein gwahodd i archwilio’r manau a rhoi adborth o ran profiad y tystion. Hefyd, fe wnaethon ni archwilio’r llysoedd ar droed gyda’r gwirfoddolwyr er mwyn ymgyfarwyddo â’r cynllun newydd, a chymerodd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi ran yn yr archwiliadau hyn. Wedyn, byddai modd iddyn nhw ateb cwestiynau’r gwirfoddolwyr.”

—Arweinydd Tîm y Gwasanaeth Tystion (Llysoedd)



# Helpu tystion i gyflwyno'u tystiolaeth orau



Yn achos tystion a gafodd ymweld â'r llys cyn yr achos, dywedodd 95% ohonynt fod cymorth y Gwasanaeth Tystion yn 'bwysig iawn' neu'n 'weddol bwysig' iddynt o ran mynychu'r achos

Er gwaethaf y cyd-destun dyrys eleni, rydym wedi parhau i helpu tystion i gymryd rhan weithredol yn y broses cyfiawnder troseddol. Dyma sut...

## **Cynnig cymorth ychwanegol cyn yr achos i dystion agored i niwed a thystion sy'n cael eu bygwth**

Rhan bwysig o'n gwasanaeth yw'r cymorth ychwanegol a gynigiwn cyn achosion i dystion agored i niwed a thystion sy'n cael eu bygwth. Y llynedd, cafodd nifer o'r cyfarfodydd allgymorth hyn eu cynnal ar y ffôn neu trwy alwad fideo yn hytrach nag wyneb yn wyneb, a bu'n rhaid i'r trefniadau fod yn hyblyg er mwyn darparu ar gyfer newidiadau yn amserlenni'r llysoedd.

Er gwaethaf yr heriau sydd ynghlwm wrth gynorthwyo tystion o bell, y llynedd fe wnaethom lwyddo i gynnal 2,340 o gyfarfodydd paratoi gyda thystion. O blith y tystion a gymerodd ran mewn cyfarfodydd paratoi, rhoddodd **87% ohonynt y statws uchaf posibl i'w profiad, sef 'da iawn'**.

**"Does yna ddim byd y gallai'r cyfarfod paratoi fod wedi'i wneud yn well. Cefais fy nhywys trwy'r gweithdrefnau drwy gydol y daith, a hynny gyda gofal ac amynedd mawr – rhywbeth a'm helpodd yn eithriadol!"**

—Tyst

## Helpu tystion i baratoi ar gyfer mynd i'r llys cyn diwrnod yr achos

Mae tystion a gaiff eu hatgyfeirio atom cyn eu hachos yn cael y cynnig i ymweld â'r llys cyn i'r achos gael ei gynnal. Arweiniodd y coronafeirws at heriau o ran cynnal ymweliadau cyn achosion – er enghraifft, fe wnaeth cyfyngiadau o ran nifer y bobl a gâi fynd i mewn i lysoedd atal rhai ymweliadau wyneb yn wyneb rhag cael eu cynnal.

Buom yn gweithio gyda Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi a'n partneriaid eraill i ddod o hyd i'r ffyrdd gorau o barhau i gynnig ymweliadau cyn achosion mewn modd diogel, yn cynnwys cynnig galwadau ffôn neu alwadau fideo cyn yr achos fel dewis amgen. Yn 2020/21, cynhaliodd ein staff a'n gwirfoddolwyr 6,380 o gyfarfodydd cyn achosion:



55% wyneb yn wyneb



35% ar y ffôn



10% trwy fideo

Mae'r tystion hynny a gymerodd ran mewn ymweliadau cyn achosion ac a ymatebodd i'n harolygon wedi sôn wrthym am y gwahaniaeth a wnaeth yr ymweliadau hyn:

- Dywedodd 84% fod eu profiad yn 'dda iawn'
- Dywedodd 95% fod cymorth y Gwasanaeth Tystion yn 'bwysig iawn' neu'n 'weddol bwysig' iddynt o ran mynychu'r achos, a dengys hyn pa mor hanfodol yw'r gefnogaeth a roddwn cyn achosion o ran rhoi hyder a chymorth i'r tystion gyflwyno'u tystiolaeth orau

**“Roeddwn yn cael fy ystyried yn dyst agored i niwed ac roedd mynd i'r llys yn codi arswyd arnaf. Rhoddodd y Gwasanaeth Tystion gyfle imi fynd i'r llys cyn yr achos ac fe wnaethon nhw esbonio pob agwedd ar y broses. Roeddwn i'n llawer mwy cyfforddus ar ôl yr ymweliad hwnnw.”**

—Tyst

## Sicrhau bod pob tyst yn teimlo'n barod i sefyll gerbron y llys



Dywedodd 96% o dystion fod y Gwasanaeth Tystion wedi'u helpu i deimlo'n fwy gwybodus ynglŷn â phroses y llys

Mae ein cymorth yn helpu tystion i ddeall yn well yr hyn sy'n digwydd yn ystod yr achos a'r hyn sy'n ddisgwyliedig ganddynt. Hefyd, caiff tystion eu grymuso i ofyn cwestiynau a cheisio arweiniad er mwyn iddynt allu teimlo'n fwy cyfforddus yn ystod eu siwrnai trwy'r system cyfiawnder troseddol.

**“Cefais gymorth trwy'r broses a rhoddwyd sylw i bob manylyn. Wnaeth y staff ddim rhuthro ac roedden nhw'n andros o amyneddgar ac yn wych am esbonio pethau'n glir. Roeddwn i'n dyst i drais domestig ac arweiniodd hyn at emosiynau anodd... Roedd y staff yn llawn cydymdeimlad, ac roedden nhw'n dda am wrando a chymryd fy mhryderon o ddifrif.”**

—Tyst



Yn ôl 90% o'r rhai a ymatebodd i'n harolwg, fe wnaeth y gwirfoddolwyr neu'r staff eu helpu i deimlo'n hyderus ynglŷn â rhoi tystiolaeth

Trwy wneud i dystion deimlo'n fwy diogel, yn llai pryderus ac yn fwy gwybodus ynglŷn â'r hyn y gallent ei ddisgwyl, fe wnaethom eu helpu i deimlo'n fwy hyderus ynglŷn â chymryd rhan mewn achosion. Dywedodd nifer o dystion fod y cymorth a gawsant gennym wedi eu helpu i ymbaratoi a theimlo'n fwy hyderus ynglŷn â rhoi tystiolaeth.

**“Bu aelod o staff y Gwasanaeth Tystion yn help enfawr imi, gan dawelu fy meddwl a darparu popeth roeddwn i wedi gofyn amdano yn gyflym ac yn broffesiynol. Llwyddodd i wneud i'm mab a minnau deimlo'n hyderus ynglŷn â rhoi tystiolaeth a bu o gymorth mawr ar y diwrnod. Fydden ni ddim wedi gallu cario 'mlaen heb y gwasanaeth hwn, oherwydd roeddwn i'n mynd trwy drawma mawr.”**

—Tyst

## **Sicrhau bod modd i achosion fynd yn eu blaen yn ddiraffferth a helpu'r system cyfiawnder troseddol i fynd rhagddi'n llyfn**

Mae cynnig cymorth i dystion cyn yr achos ac ar ddiwrnod yr achos yn esgor ar effaith sy'n ymestyn y tu hwnt i sicrhau bod y tyst unigol yn teimlo'n fwy cyfforddus. Yn ôl nifer o'r rhai a ymatebodd i'n Harolwg o Brofiad Tystion, fe wnaeth ein cymorth leihau eu straen a'u trawma ar y diwrnod, a thrwy hynny fe wnaethant lwyddo i gyflwyno tystiolaeth. Mae ein partneriaid yn y llys, yn arbennig, wedi cydnabod ein cyfraniad o ran sicrhau bod achosion yn mynd rhagddynt yn ddiraffferth:

### **Cynorthwyo timau lleol**

**"Pleser mawr... yw cael talu teyrnged i'n tîm gwych o wirfoddolwyr yn y Gwasanaeth Tystion. Ers i achosion â rheithgorau ddychwelyd fis Gorffennaf diwethaf mae defnyddwyr mwyaf profiadol y llys, hyd yn oed, wedi teimlo'n bryderus; ond gyda'ch help chi, rydym wedi hwylio'r llong trwy ddyfroedd stormus.**

**Ers hynny, rydym wedi llwyddo'n raddol i gynyddu nifer yr achosion a gynhelir yn ein llysoedd... Yn anochel, mae hyn wedi arwain at fwy o bobl yn yr adeilad wrth i fwy a mwy o dystion fynychu'r llys i roi tystiolaeth yn yr achosion troseddol mwyaf difrifol.**

**Heb wirfoddolwyr y Gwasanaeth Tystion, fyddai hyn ddim wedi bod yn bosibl. Rydych wedi cadw ein tystion yn ddiogel, wedi lleihau eu pryderon ac wedi hwyluso cyfathrebu rhyngddynt nhw a'r cwnsleriaid. Mae'r dasg o sicrhau bod y tystion yn symud yn briodol trwy'r adeilad wedi cael ei rheoli mewn modd sy'n ymddangos mor ddiymdrech.**

**Mae'r ffaith fod cynifer o'r achosion hyn wedi mynd rhagddynt yn ddiraffferth, heb i unrhyw beth fynd o'i le, yn arwydd o'ch proffesiynoldeb a'ch ymrwymiad i weinyddu cyfiawnder yn ein gwlad. Diolch i bob un ohonoch."**

**—Barnwr**

Mae empathi a thosturi ein staff a'n gwirfoddolwyr yn agwedd allweddol ar ein gwasanaeth. Mae'r elfennau hyn yn rhoi'r offer ymarferol ac emosiynol angenrheidiol i dystion – ac yn arbennig i ddioddefwyr – er mwyn eu galluogi i gyfrannu'n effeithiol at y broses cyfiawnder troseddol.



# Yr hyn rydym wedi'i ddysgu eleni

Rydym yn eithriadol o falch o'r gwaith a wnaethom i barhau i helpu tystion i roi tystiolaeth yn ystod y coronafeirws. Mae'r pandemig wedi esgor ar heriau, ond mae wedi bod yn gyfle i ni gyflwyno newidiadau cadarnhaol, parhaol i'n ffordd o weithio.

Dyma rai ffyrdd y byddwn yn eu defnyddio i fwrw ymlaen â'r hyn a ddysgwyd gennym y llynedd o ran cynorthwyo tystion yn y dyfodol a gwneud ein gwasanaeth yn fwy cynhwysol ac yn haws cael gafael arno...

## **Byddwn yn parhau i ddefnyddio technoleg i gyrraedd mwy o dystion, dioddefwyr a gwirfoddolwyr**

Mae'r addasiadau a gyflwynwyd i'n gwasanaeth yn ystod y coronafeirws wedi ein helpu i ganolbwyntio ar sut gallwn gynorthwyo tystion yn well i roi tystiolaeth mewn amgylchiadau annodweddiadol. Byddwn yn parhau i gynnig cymorth i dystion trwy fideo ac ar y ffôn, a hynny cyn, yn ystod ac ar ôl yr achos, yn ogystal â rhoi cymorth wyneb yn wyneb yn y llys. Bydd y dull cynhwysol hwn yn caniatáu i ni gynnig gwasanaeth a fydd wedi'i deilwra'n ôl anghenion pob tyst sy'n ymhél â'n gwasanaeth.

## **Byddwn yn cefnogi'r syniad o ddiwygio cyfiawnder troseddol er budd tystion a dioddefwyr**

Pan gaiff newidiadau eu cyflwyno i brosesau'r system cyfiawnder troseddol, byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau eu bod yn ystyriol o anghenion tystion. Er enghraifft, byddwn yn sicrhau bod gennym brosesau ar waith i gynorthwyo tystion i gofnodi tystiolaeth ymlaen llaw ar gyfer achosion Adran 28<sup>2</sup>.

## **Byddwn yn parhau i gydweithio â'n partneriaid yn y system gyfiawnder**

Mae'r holl addasiadau y bu'n rhaid i'r system cyfiawnder troseddol eu gwneud yn ystod y coronafeirws wedi dangos yn glir pa mor bwysig yw cydweithio gydag eraill.

Bydd y berthynas wych sydd gennym gyda rhanddeiliaid – perthynas sydd wedi cryfhau yn ystod y coronafeirws – yn caniatáu i ni barhau i eirioli ar ran dioddefwyr a thystion, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

<sup>2</sup> Mae Adran 28 yn caniatáu i dystion agored i niwed recordio'u tystiolaeth a'u croesholiad ymlaen llaw. Yna, gellir dangos y recordiad yn ddiweddarach yn yr achos, felly ni fydd yn rhaid i'r tyst mynychu'r llys.

## Ac yn bwysicach na dim, byddwn yn parhau i eirioli ar ran tystion ble bynnag y gallwn

Mae'r coronafeirws wedi esgor ar heriau newydd i'r system cyfiawnder troseddol, ond mae hefyd wedi dwysáu effaith y materion sydd eisoes yn wynebu tystion, megis oedi hir rhwng gwneud datganiad a rhoi tystiolaeth yn y llys.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein dylanwad i sicrhau bod llais tystion yn cael ei glywed trwy'r system gyfiawnder, gan annog newidiadau a fydd yn gwella'u profiad o roi tystiolaeth.

### Cynorthwyo tystion drwy gydol eu taith

“Roedd yr unigolyn o'r Gwasanaeth Tystion a aeth ati i'm helpu yn wirioneddol wych. O'r eiliad y gwnes i ei chyfarfod, roedd hi'n garedig ac yn llawn cefnogaeth. Fe wnaeth hi fy nhywys trwy'r holl broses ac roedd hi'n fodlon aralleirio ac esbonio pethau mewn ffordd a oedd yn ddealladwy imi.

Roedd hi'n wych am leihau fy mhanig, yn enwedig fy mhryderon ynglŷn â'm hanghenion ychwanegol, h.y. nam ar y clyw a dyslecsia. Gyda fy nghaniatâd, aeth yn ei blaen yn syth i siarad â'r bobl berthnasol er mwyn gwneud yn siŵr fod y llys yn hollol ymwybodol o'm hanghenion. Ar ôl cael caniatâd, roedd hi'n wych hefyd am fy helpu i fynd trwy fy natganiad mewn ffordd ac ar gyflymder a oedd yn ddealladwy ac yn glir.

Arhosodd gyda mi drwy'r amser, ac yn ystod yr ychydig adegau y bu'n rhaid iddi fy ngadael, rhoddodd esboniad llawn imi.

Roedd hi'n fodlon sgwrsio'n gyffredinol â mi tra oeddwn yn aros i'r cyswllt fideo ddechrau. Ond hefyd, roedd hi'n mynd trwy'r broses gyda mi'n rheolaidd, gan wneud yn siŵr fy mod yn iawn o hyd ac yn deall popeth.

Ar ôl imi orffen, aeth â mi yn ôl at fy mam ac eisteddodd gyda ni, ac unwaith eto fe wnaeth hi drafod yr hyn roeddwn i wedi'i wneud, gan sicrhau fy mod yn iawn ac ateb unrhyw gwestiynau newydd a oedd gen i. Fe wnaeth hi nid yn unig ofalu'n wych amdanaf i, ond fe wnaeth hi hefyd dawelu meddwl fy mam a dangos pa mor gefnogol oedd hi.

Allwn i ddim bod wedi gofyn am rywun clen, mwy cymwynasgar a mwy gwybodus.”

—Tyst

“Roedd bod yn dyst yn y llys yn brofiad llethol a dychrynlyd. Ond llwyddodd y gwirfoddolwyr i wneud i ni deimlo mor gyfforddus ac fe fuon nhw’n gefn i ni drwy gydol y diwrnod. Roedden nhw’n wirioneddol anhygoel a fydden ni ddim wedi ymdopi heb eu help nhw.”

—Tyst

# Mae Cyngor ar Bopeth yn helpu pobl i ddod o hyd i ffordd ymlaen.

Rydym yn cynnig cyngor annibynnol, cyfrinachol, rhad ac am ddim i bobl i'w helpu i oresgyn eu problemau. Ni yw llais ein cleientiaid a'n defnyddwyr ar y materion sydd bwysicaf iddyn nhw.

Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth, yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn herio gwahaniaethu ac aflonyddu.

Rydym yma i bawb.

[citizensadvice.org.uk](https://citizensadvice.org.uk)



© Cyngor ar Bopeth Gorffennaf 2021

Cyngor ar Bopeth yw enw gweithredu Cymdeithas Genedlaethol Cyngor ar Bopeth.

Rhif elusen gofrestrdig 279057.